

# MOSES a’r Deg Gorchymyn


www.lambsongs.co.nz     Gan Jill Kemp (cyf. Catrin Roberts)     Lluniau gan  Richard Gunther




**Rheolau Duw ydy’r Deg Gorchymyn. Mae’r rheolau yn helpu pobl i fyw bywyd da a diogel.**



**Aeth Moses i fyny’r mynydd i siarad gyda Duw. Roedd e’n cario dwy garreg fawr, fflat. Roedd y bobl i gyd yn aros ar waelod y mynydd.**



**Ysgrifennodd Duw ei reolau ar y cerrig. Mae rheolau Duw yn dweud wrth bobl mai Duw ydy’r unig dduw maen nhw i’w garu a’i drystio. Maen nhw hefyd yn dangos sut i wneud beth sy’n dda a sut i drin bobl eraill yn iawn.**




**Arhosodd Moses ar y mynydd am amser hir iawn. “Beth am i ni ddefnyddio ein trysorau aur i greu Duw y gallwn ni ei weld,” dwedodd y bobl. Ond doedd y llo aur ddim yn gallu ateb eu gweddïau.**




**Gwelodd Moses y bobl yn gweddïo o flaen eu delw. Dyma fe’n torri’r cerrig roedd Duw wedi ysgrifennu arnyn nhw. Yna cofiodd pawb sut roedd Duw wedi’u hachub nhw. Roedden nhw’n teimlo’n sori.**



**Aeth Moses yn ôl i ben y mynydd gyda dwy garreg newydd. Rhoddodd Duw y rheolau i Moses unwaith eto. “Dweda wrth y bobl am fod yn ufudd i’r rheolau da yma,” meddai Duw.**




**“Nawr fe fyddan nhw’n gwybod beth sy’n iawn a beth sy’n ddrwg, ac yn gwybod sut i fyw bywydau da.” Yr enw gafodd ei roi ar reolau Duw ydy’r Deg Gorchymyn.**



**Os wnewch chi gadw at y rheolau, bydd eich bywyd yn hapus ac yn heddychlon. Mae Duw am i ni ei garu Ef a charu pobl eraill.**